

Sport RCT

## Sophia, Henry, Lucus a Maddison

## Ysgol Gynradd Pen-y-gawsi

Cafodd Sophia, Henry, Lucus a Maddison eu henwebu i fod yn Llysgenhadon Ifainc oherwydd eu bod nhw'n fodelau rôl caredig, ystyriol a gweithgar i bobl eraill. Maen nhw bob amser yn dangos penderfyniad ac yn ymdrechu i wneud eu gorau ym mhopeth maen nhw'n ei wneud. Mae eu hagweddau cadarnhaol, eu gwaith tîm a'u hymroddiad yn ysbrydoli'r bobl o'u cwmpas, ac maen nhw bob amser yn barod i gefnogi ac annog eu cyfoedion. Mae eu hangerdd dros chwaraeon a'u sgiliau arweinyddiaeth naturiol yn eu gwneud nhw'n fodelau rôl rhagorol sy'n hybu gwerthoedd parch, dyfalbarhad a chynhwysiant yng nghymuned eu hysgol.

"Mae'r plant wedi bod yn sefydlu gweithgaredd tenis yn yr Ardal Gemau Aml-ddefnydd bob amser cinio ac egwyl, sy'n golygu bod modd i'r plant eraill yng Nghyfnod Allweddol 2 chwarae tenis. Maen nhw hefyd wedi bod yn mynd i iard plant y Cyfnod Sylfaen i chwarae gemau iard traddodiadol gyda'r plant iau. Maen nhw'n gobeithio cynnwys tenis bwrdd yn rhan o'u clwb yn ystod amseroedd chwarae pan mae'n bwrw glaw yr hanner tymor yma. Mae eu brwdfrydedd a'u gwaith caled wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'n hysgol. Mae'r Llysgenhadon Chwaraeon wedi mwynhau arwain y tenis yn fawr iawn yn ystod eu hamser cinio ac egwyl. Mae'n hyfryd eu gweld nhw'n annog eraill i chwarae gwahanol chwaraeon." **Miss O'Brien – Athrawes yn Ysgol Gynradd Pen-y-gawsi**

## LLYSGENNAD IFANC Y MIS - MAWRTH 2026

Chwaraeon RhCT Sport RCT | sportwales chwaraeoncymru | YOUTH SPORT TRUST | RHONDDA CYNON TAF